## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu hawdurdodi i adennill costau a ysgwyddwyd ganddynt mewn cysylltiad ag—

(a) ymchwiliadau y mae gan Weinidogion Cymru hawl i adennill eu costau mewn perthynas â hwy o dan neu yn rhinwedd adran 250(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (gan gynnwys ymchwiliadau gorchymyn prynu gorfodol y cymhwysir yr adran honno iddynt gan adran 5 o Ddeddf Caffael Tir 1981) neu adran 69(5) o Ddeddf Draenio Tir 1991 ("ymchwiliadau lleol"); a

(b) gweithdrefnau cymwys fel y'u diffinnir gan adran 303A(1A) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (archwiliadau annibynnol a gynhelir mewn perthynas â chynlluniau datblygu lleol ac ymchwiliadau mewn perthynas ag ystyried gwrthwynebiadau i gynlluniau parth cynllunio syml) ("gweithdrefnau cymwys").

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r swm dyddiol safonol y caiff Gweinidogion Cymru ei adennill am bob diwrnod, neu ran o ddiwrnod—

(a) y bydd ymchwiliad lleol yn eistedd neu y bydd y person a benodir i gynnal yr ymchwiliad lleol fel arall yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad hwnnw; neu

(b) y bydd y person a benodir i gynnal gweithdrefn gymwys wrthi'n cynnal y weithdrefn gymwys, neu fel arall yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn honno.

Y swm dyddiol safonol yw £508 ar gyfer ymchwiliadau lleol a gweithdrefnau cymwys sy'n agor ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym neu ar ôl hynny a chyn 1 Ebrill 2018. Y swm yw £513 ar gyfer ymchwiliadau lleol a gweithdrefnau cymwys sy'n agor ar 1 Ebrill 2018 neu ar ôl hynny a chyn 1 Ebrill 2019, a £518 ar gyfer ymchwiliadau lleol a gweithdrefnau cymwys sy'n agor ar 1 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny. Mae'r symiau hyn yn disodli'r swm o £742 mewn perthynas ag ymchwiliadau lleol a'r swm o £679 mewn perthynas â gweithdrefnau cymwys a ragnodwyd yn Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011"). Darperir manylion pellach ynghylch sut y cyfrifwyd y symiau dyddiol safonol hyn a sut y mae Gweinidogion Cymru i adennill costau yn y Memorandwm Esboniadol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r offerynnau a nodir yn yr Atodlen, gan gynnwys Rheoliadau 2011.

Ceir darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed.

Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n gymwys i'r Rheoliadau hyn ar gael gan Lywodraeth Cymru yn: Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.